| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | BWRDD Y CYNGOR |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 22 CHWEFROR 2011 |
| **TEITL** | STRATEGAETH ARIANNOL 2011/12 – 2014/15 |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu cyllideb ar gyfer 2011/12 yn cynnwys argymhelliad i'r Cyngor ynglŷn â lefel cynnydd yn y Dreth Gyngor a mabwysiadu'r strategaeth ar gyfer cwrdd â'r diffyg cyllidol am y blynyddoedd i ddod |
| **AWDUR** | Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Sian Gwenllian |

## 1 CEFNDIR

1.1 Yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr, bu'r Bwrdd yn ystyried y sefyllfa gyllidol debygol ar gyfer y cyfnod 2011/12 – 2014/15.

1.2 Yn yr adroddiad hwnnw atgoffais aelodau o'r hafaliad sylfaenol sy'n rhaid ei wireddu bob blwyddyn sef –

Gwariant = Grant y Cynulliad + Treth Gyngor

1.3 O ran yr ochr gwariant nodwyd ym mis Rhagfyr y byddai ein hanghenion gwario yn cynyddu £8.2m yn 2011/12 er mwyn cwrdd â chynnydd anorfod yn ein costau a blaenoriaethau y byddai angen eu hariannu ac y byddai Grant Llywodraeth y Cynulliad yn gostwng £2m - fyddai'n golygu na fyddai'r hafaliad yn sefyll oni bai i ni leihau gwariant neu gynyddu'r Dreth Gyngor i ddarganfod y £10.2m.

1.4 'Roedd yna gytundeb yn y Bwrdd ynglŷn â'r tybiaethau a gymerwyd wrth sefydlu'r strategaeth a sut yr oeddem am ymdrin â'r risgiau yr oeddem wedi eu hadnabod.

1.5 Dros gyfnod hirach o 4 blynedd nodwyd ein bod wedi taflunio y gallasem fod yn wynebu bwlch ariannol o £40m (ar sail tybiaethau penodol ynglŷn â chyfraddau codiadau cyflog a chwyddiant a.y.b.).

1.6 Cytunwyd ar strategaeth fyddai'n ein galluogi i ddarganfod y bwlch o £10.2m y flwyddyn nesaf ynghyd â'r £40m dros gyfnod hirach yn seiliedig ar y strategaeth ganlynol (ond gan nodi'r dymuniad i sicrhau ein bod yn ychwanegu at lefel yr arbedion effeithlonrwydd gan leihau ar yr elfen toriadau os oes modd gwneud hynny) –

**Tabl 1**
**Strategaeth ar gyfer darganfod £40m dros 4 blynedd**

| | **£m** |
|---|---|
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor dros 4 blynedd | 8.5 |
| Gweddill y cynllun arbedion £16m | 11.8 |
| Newidiadau i bolisïau cyllidebu | 1.5 |
| Cynyddu arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau i 1% | 6.6 |
| Cynlluniau effeithlonrwydd corfforaethol | 4.4 |
| Codi incwm | 0.6 |
| Toriadau | 6.7 |
| **Cyfanswm** | **40.1** |

1.7 Yn wyneb datganiad a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad eu bod wedi cyfyngu ar y gostyngiad grant y maent wedi ei drosglwyddo i awdurdodau lleol er mwyn caniatáu iddynt roddi elfen o warchodaeth i gyllidebau ysgolion, penderfynodd y Bwrdd hefyd y dylid sefydlu strategaeth fyddai'n rhoi'r dymuniad hwnnw ar waith.

1.8 Cytunwyd hefyd ar drefn ar gyfer sefydlu'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd a thoriadau fyddai'n cynnwys darganfod barn trigolion ar eu blaenoriaethau wrth ystyried toriadau a rhoddi cyfle i holl aelodau'r Cyngor gael mewnbwn i'r broses ar gyfer darganfod arbedion effeithlonrwydd a thoriadau.

1.9 'Roedd y ffigwr cynnydd yn y Dreth Gyngor yn seiliedig ar gynnydd o 4% y flwyddyn yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Bwrdd ar gyfer tybiaethau cynllunio.

1.10 Gellir gweld copi llawn o'r adroddiad blaenorol sy'n cynnwys y drefn arfaethedig ar gyfer darganfod arbedion effeithlonrwydd a thoriadau ar safle we'r Cyngor yn :
http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2010/Bwrdd%20y%20Cyngor/2010-12-14/cymraeg/05_02_Strategaeth%20Ariannol%202011-12%20-%202014-15%20-%20Adroddiad%20Prif%20Bwyllgor%20Craffu.pdf

1.11 Bydd y Prif Bwyllgor Craffu yn ystyried yr adroddiad yma yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror a byddwn yn adrodd ar ganlyniad y trafodaethau hynny i'r Bwrdd.

## 2 SEFYLLFA DERFYNOL 2011/12

2.1 O ddilyn cyfeiriad cyffredinol y strategaeth a sefydlwyd yn Rhagfyr dyma bellach yw'r ffigyrau cyllidebol diweddaraf a ragwelir ar gyfer 2011/12 (nodir y gymhariaeth gyda'r hyn a adroddwyd ym mis Rhagfyr) -

**Tabl 2**
**Cyllideb derfynol 2011/12**

| £'000 | Adroddwyd yn Rhagfyr | Cyllideb Derfynol | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Sylfaenol** | **217,202** | **217,202** | - |
| Chwyddiant cyflogau | 534 | 534 | |
| Chwyddiant arall | 2,711 | 2,605 | (106) |
| Praeseptau | (31) | (15) | 16 |
| Incrementau | 233 | 254 | 21 |
| Pensiynau | 342 | 342 | - |
| Llog ar falansau | 240 | 100 | (140) |
| Costau Benthyca | (406) | (406) | - |
| Demograffi – Henoed | 245 | - | (245) |
| Lleihad cyllidebau incwm | - | 4 | 4 |
| Amrywiol | (416) | (388) | 28 |
| Trosglwyddiadau i'r setliad | 406 | 563 | 157 |
| Cwrdd â phwysau ar wasanaethau | 1,765 | 1,355 | (410) |
| Cynllun Tair Blynedd | 800 | 800 | - |
| Cyfyngu ar incwm gofal cartref | 840 | 854 | 14 |
| Cyfalaf | 800 | - | (800) |
| **Cyfanswm gofynion** | 225,265 | 223,804 | (1,461) |
| **Grant Cynnal Refeniw** | (167,889) | (168,026) | (137) |
| **Treth Gyngor (heb gynnydd)** | (47,159) | (47,159) | - |
| **Diffyg i'w ddarganfod drwy -** | 10,217 | 8,619 | (1,598) |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | (2,400) | (1,906) | 494 |
| Arbedion y £16m | (4,610) | (5,047) | (437) |
| Newid polisi cyllidebu | (1,000) | (1,190) | (190) |
| Effeithlonrwydd corfforaethol | (500) | (500) | - |
| **I'w bontio tan 2012/13** | 1,707 | (24) | (1,731) |

2.2 'Roedd y gyllideb a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr yn rhagweld na fyddai gennym ddigon o arbedion ar gael i gwrdd â'r diffyg o £10.2m ac y byddai'n rhaid i ni bontio £1.7m hyd nes 2012/13 pan fyddai yna fwy o arbedion ar gael i ni. Nodwyd bryd hynny y byddem yn edrych ar ffyrdd o ohirio gwariant er mwyn osgoi gorfod pontio drwy ddefnyddio balansau. Llwyddwyd i wneud hynny - gweler cymalau 2.6 a 2.9 isod.

2.3 Fe welir o'r tabl uchod fod yna nifer o amrywiaethau bychan sy'n deillio o ail ymweld â rhai ffigyrau ond fe amlygir y rhesymau y tu ôl i'r amrywiaethau mwyaf isod.

2.4 **Chwyddiant arall** - mae'r ffigwr yma'n gostwng yn sgil ail ymweld â'r ffigyrau tunelli fydd yn mynd i dirlenwi a'r ffigwr sydd angen ei ddarparu felly ar gyfer y Dreth Tirlenwi.

2.5 **Llog ar falansau** - 'rydym wedi ail ymweld â'r tybiaethau y tu ôl i'r cyfrifiad ac wedi ail ystyried y tafluniadau ynglŷn â defnydd balansau a reserfau. Ystyrir felly na fydd y llog ar falansau yn disgyn cymaint ag y rhagwelwyd yn wreiddiol.

2.6 **Demograffi Henoed** - Mae'n arferol i ni ychwanegu at y gyllideb henoed er mwyn cydnabod y ffaith fod y boblogaeth dros 65 yn cynyddu ac yn sgil hynny, y byddai rhywun yn disgwyl i'r nifer cleientiaid gynyddu hefyd. Nid yw'r gwasanaeth eto wedi cyrraedd y lefel cleientiaid fyddai ei angen i gyfiawnhau defnyddio'r ychwanegiad a roddwyd yng nghyllideb y llynedd a'r flwyddyn flaenorol. Felly, wrth dderbyn y bydd angen i ni ychwanegu at y gyllideb yma yn y dyfodol, 'rwyf wedi gohirio ychwanegu at y gyllideb yma'r flwyddyn nesaf.

2.7 **Trosglwyddiadau i'r setliad** - mae yna gynnydd yn y ffigwr yma yn sgil cynnydd yn y materion y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu trosglwyddo i'r setliad cyffredinol, ond mae yna gynnydd cyfatebol hefyd yn y ffigwr grant. Gyda'i gilydd felly mae'r ddau yn niwtral ar y gyllideb. Cynlluniau yw'r rhain oedd yn cael eu hariannu'n flaenorol drwy grant penodol ond sydd bellach yn rhan o grant cyffredinol y Cynulliad.

Dyma yw'r materion sydd wedi eu trosglwyddo -

| **Gwasanaeth** | **Maes** | **£** |
|---|---|---|
| Strategol a Gwella | Gweinyddu Cynllun Cymorth | 250,000 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Datblygu gweithlu a rheoli perfformiad | 112,000 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Ffioedd Llys Plant | 76,000 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Gweithredu Deddf Plant 2008 | 80,160 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Strategaeth Pobl Hyn | 45,000 |
| **Cyfanswm** | | **563,160** |

Gyda'r ddau gyntaf, dylid bod yn ymwybodol fod y gwariant a ariennir drwy grant penodol yn £326,000 a £222,980 ond wrth drosglwyddo i'r setliad fe dorrwyd ar y cyfansymiau a ddyrennir hefyd. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth yn ystyried ei fod yn briodol disgwyl i'r gwasanaethau perthnasol gyfyngu eu gwariant i'r swm a drosglwyddir **ond dylid bod yn ymwybodol y bydd hyn yn golygu colli rhai swyddi**.

2.8 **Cwrdd â phwysau ar wasanaeth** - fe welir o adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ei fod yn argymell y dylid cymeradwyo cyllid ychwanegol parhaol o £2,008,870 i gwrdd â phwysau ar wasanaethau sy'n cynnwys £853,980 i gwrdd â'r incwm y bydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei golli oherwydd newid rheolau ynglŷn â'r incwm y gellir ei godi ar rai sy'n derbyn gwasanaethau dibreswyl.

Mae'r symiau yma gyda'i gilydd tua £389,000 yn llai na'r tafluniad gwreiddiol yr oeddem yn ei ystyried yn Rhagfyr yn sgil her sylweddol bellach a roddwyd i'r ceisiadau er mwyn eu cadw i'r isafswm posibl.

Er gwaethaf y ffaith fod y swm yn llai mae'n cynnwys ychwanegiad o £200,000 i'r gyllideb wrth gefn er mwyn gwarchod rhag bygythiadau ychwanegol sy'n dechrau dod i'r amlwg. Yn y strategaeth a gymeradwywyd yn Rhagfyr fe nodais fod gennym gyllideb wrth gefn

fyddai'n helpu i roddi elfen o warchodaeth pe byddai'n rhaid talu codiad cyflog i'r gweithlu coler wen a choler las ac i warchod yn erbyn cynnydd ym mhris ynni a thanwydd allasai fod yn uwch na'r hyn ddarparwyd ar ei gyfer yng nghyllidebau'r gwasanaethau.

Bellach daethom yn ymwybodol o fygythiadau eraill sydd yn debygol o daro'n ariannol ond lle nad oes darpariaeth yn y gyllideb. Mae yna fygythiad tebygol i'r sybsidi gweinyddu budd-daliadau; tebygrwydd y bydd yn rhaid i Ymgynghoriaeth ostwng y lluosydd a ddefnyddir wrth dendro am waith; a'r posibilrwydd y bydd y grant strategol gwastraff hefyd yn cael ei leihau. Gyda'i gilydd felly 'rwyf yn ystyried y dylid ychwanegu tua £200,000 at y gyllideb wrth gefn i gyfarch y risgiau ychwanegol yma.

Un bygythiad na ddarparwyd ar ei gyfer gan na wyddom yn bendant a yw am gael effaith arnom o gwbl yw'r dyfarniad cyfreithiol a gafwyd ym Mhenfro ynglŷn â ffioedd gofal. Mae'r gwasanaeth yn parhau i geisio sefydlu a oes yna oblygiadau i ni ac os cyfyd hynny yna bydd yn rhaid i ni ddelio ag ef tu fewn i'r gyllideb wrth gefn sydd gennym neu drwy ddefnyddio balansau tan y flwyddyn nesaf pan allwn ei adlewyrchu yn y gyllideb sylfaenol.

Fe welir hefyd yn adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella fod angen cyllido bidiau unwaith ac am byth cyfwerth â £1,071,920.

Gellir ariannu'r gwariant unwaith ac am byth yma drwy ddefnyddio £310,550 o arian sy'n bodoli yn y gyllideb yn benodol i gwrdd â gwariant unwaith ac am byth (gan ei fod yn deillio o ffynhonnell grant sydd ei hun yn ansicr - sef y grant cymell perfformiad); defnyddio'r £474,970 adnoddau a gynhyrchwyd yn 2010/11 drwy godi'r Dreth Gyngor er mwyn cyfrannu at y bwlch ariannol (na fydd ei angen tan 2013/14); ac yna ariannu'r gweddill drwy ddefnyddio £286,400 o'r arian a roddwyd o'r neilltu i ariannu benthyciadau ar gyfer y Cynllun Rheoli Asedau na fydd ei angen y flwyddyn nesaf.

Atgoffir yr aelodau nad yw'r Cyngor eto wedi sefydlu beth fydd y cynlluniau y bydd yn dymuno eu cyflawni yn ei Gynllun Tair Blynedd ond 'rydym wedi cynnwys £800,000 yn y gyllideb ar hyn o bryd er mwyn cychwyn cyfarch unrhyw gynlluniau perthnasol, gyda golwg ar osod symiau angenrheidiol pellach yn y gyllideb ym mlynyddoedd i ddod unwaith y bydd y Cyngor wedi sefydlu ei flaenoriaethau.

2.9 **Cyfalaf** - Nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd yn Rhagfyr ein bod yn cynllunio ar sail y tebygrwydd y bydd angen llenwi'r bwlch ariannol fyddai'n cael ei greu oherwydd bod yr adnoddau cyfalaf a geir gan y Cynulliad yn gostwng 20% y flwyddyn nesaf a hefyd yr angen i wneud darpariaeth ar gyfer cwrdd â 30% o gyfraniad y Cyngor tuag at gynlluniau gwella ac adeiladu ysgolion.

Rhoddwyd darpariaeth o £800,000 yn y gyllideb wreiddiol er mwyn cyfarch hyn ond o ail edrych ar y ffordd yr ariennir y benthyciadau ystyrir y gellir lleihau rhywfaint ar y swm yma i £500,000 a'i symud i'r flwyddyn ganlynol – sy'n golygu na fydd ei angen tan 2012/13.

Nodir mwy am y rhaglen gyfalaf isod yn rhan 4.

2.10 **Grant Cynnal Refeniw** – yn y setliad terfynol fe ddaethpwyd a mwy o grantiau penodol i mewn i'r setliad (gweler cymal 2.7 uchod) ond yn gyffredinol nid yw'r sefyllfa wedi newid o unrhyw sylwedd ac 'rydym yn parhau i weld gostyngiad o 1.4% yn y grant ar gyfer 2011/12 o'i gymharu gyda 2010/11. 1.4% yw'r gostyngiad cyfartalog ar draws Cymru.

2.11 **Cynnydd yn y Dreth Gyngor** - Er ein bod yn parhau i ddefnyddio 4% at ddibenion cynllunio, nid yw'r ffigwr ar gyfer 2011/12 bellach yn cynnwys y swm ychwanegol a gafwyd drwy godi'r Dreth Gyngor yn 2010/11 i gynorthwyo gyda'r bwlch ariannol gan na fyddwn ei angen nawr tan 2013/14. Mae cymal 2.8 uchod yn nodi sut y bwriedir ei ddefnyddio yn y cyfamser.

Nodir mwy am y dewisiadau o ran y Dreth Gyngor yn rhan 6 isod.

2.12 **Arbedion £16m** – 'rydym yn parhau i gynllunio ar sail y byddwn yn gwireddu'r rhaglen wreiddiol ond mae yna ychydig o newidiadau eisoes i amseriad rhai o'r arbedion.

Yn ychwanegol i hyn, tra bod dymuniad y Bwrdd i anrhydeddu addewid Llywodraeth y Cynulliad i warchod rhywfaint ar gyllidebau ysgolion dros y tair blynedd nesaf yn golygu y bydd ysgolion yn elwa dros y cyfnod mae'n golygu fod y rhan fwyaf o'u harbedion yn disgyn yn 2011/12. Nodir mwy am hyn isod.

Bydd aelodau hefyd yn cofio y rhoddwyd nifer o gynlluniau yng nghategori "C" pan luniwyd y rhaglen £16m - sef cynlluniau oedd angen mwy o waith arnynt cyn y gellid eu hystyried. 'Rwyf yn arwain Grŵp project i sicrhau ein bod yn parhau i weithio ar y cynlluniau hyn a rhagwelaf y bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd er mwyn dod i gasgliad terfynol arnynt o fewn y misoedd nesaf.

## 3 RHAGOLYGON PEDAIR BLYNEDD 2011/12 - 2014/15

3.1 Fel y nodwyd yn yr adroddiad yn Rhagfyr, yn wyneb difrifoldeb y sefyllfa bresennol, ac er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynllunio'n ddarbodus ar gyfer y sefyllfa, 'rydym yn ceisio taflunio ymlaen eleni am y cyfnod 4 blynedd i ddod. Wrth gwrs ymhellach yr awn o'r presennol y mwyaf ansicr yw'r tybiaethau.

3.2 Nodwyd eisoes yng nghymal 1 uchod ein bod wedi cynllunio ar y sail y byddem yn wynebu bwlch ariannol o £40.1m ac fe nodir yn nhabl 1 sut yr oeddem yn cynllunio i ddarganfod y bwlch yma.

3.3 Nodir yn nhabl 3 isod y tafluniadau diweddaraf yn sgil diweddaru anghenion gwariant pendant 2011/12 a'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag argaeledd arbedion ynghyd â chymhariaeth gyda'r sefyllfa a nodir yn nhabl 1.

**Tabl 3**
**Tafluniad cyllidebol at ddibenion cynllunio 2011/12 – 2014/15**

| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfanswm | Tabl 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diffyg cyllidol a ragwelir | 8.6 | 10.4 | 9.1 | 9.4 | 37.5 | 40.1 |
| Treth Gyngor | (1.9) | (2.0) | (2.5) | (2.1) | (8.5) | (8.5) |
| Arbedion £16m | (5.0) | (5.7) | (1.0) | - | (11.7) | (11.8) |
| Newid polisi cyllidebu | (1.2) | (0.4) | - | - | (1.6) | (1.5) |
| 1% effeithlonrwydd gwasanaeth | - | (1.5) | (1.5) | (2.2) | (5.2) | (6.6) |
| Effeithlonrwydd corfforaethol | (0.5) | (0.7) | (1.2) | (1.8) | (4.2) | (4.4) |
| Codi incwm | - | (0.3) | (0.3) | (0.2) | (0.8) | (0.6) |
| Toriadau | - | 0.2 | (2.6) | (3.1) | (5.5) | (6.7) |

3.4 Mae'r tafluniad o'r diffyg cyllidebol bellach wedi disgyn o £40.1m i £37.5m yn sgil y gostyngiad o £860,000 yng ngalwadau gwariant 2011/12 . [Fe ddangosir £1.6m o wahaniaeth yn nhabl 2, ond mae tua £745,000 ohono yn drosglwyddiad i flynyddoedd canlynol. ] Hefyd fel y nodwyd yng nghymal 2.9 uchod mae'r modd y byddwn yn ariannu'r bwlch yn y rhaglen gyfalaf nawr yn golygu y gallwn leihau'r gofyn refeniw o £1.7m pellach dros oes y rhaglen.

3.5 Er gwybodaeth yr aelodau fe roddir manylion o'r tybiaethau ynglŷn â'r anghenion sydd yn cynhyrchu'r ffigwr £37.5m yn atodiad 1.

3.6 Er bod y tafluniad o'r diffyg cyllidebol wedi gostwng £2.6m dros y cyfnod fe welir o gymharu gyda thabl 1 nad yw'r toriadau angenrheidiol ond wedi gostwng £1.2m. Y rheswm am hyn yw bod y ffigwr yr ydym yn gweld y byddwn nawr yn medru ei ddarganfod o gynyddu'r arbedion effeithlonrwydd i 1% yn gostwng o £6.6m i £5.2m.

3.7 Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad oedd ein cynllun gwreiddiol yn cymryd i ystyriaeth effaith anrhydeddu addewid Llywodraeth y Cynulliad i roddi elfen o warchodaeth i gyllidebau ysgolion.

3.8 Yr hyn y mae addewid Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddweud yw eu bod yn disgwyl i awdurdodau sicrhau na fydd yr **arian** sydd yn mynd i gyllidebau ysgolion yn gostwng mwy na 0.33% yn 2011/12 (heb gyfrif gostyngiadau oherwydd niferoedd disgyblion) ac y dylid sicrhau eu bod yn cael cynnydd yn yr **arian** a roddir iddynt o 1.58% yn 2012/13 a

chynnydd o 2.08% yn 2013/14 (eto heb gyfrif unrhyw gynnydd neu leihad yn niferoedd disgyblion).

3.9 Fodd bynnag mae disgwyl iddynt gyllido unrhyw bwysau ychwanegol ar gyllidebau fel chwyddiant, incrementau, ac unrhyw beth arall (heblaw cynnydd / gostyngiad yn niferoedd disgyblion a eithriwyd o'r addewid) o'r swm **arian** yma a ddiffinnir yn yr addewid.

3.10 Nodaf isod yr hyn y bydd anrhydeddu'r addewid yma yn ei olygu i gyllidebau ysgolion dros y tair blynedd nesaf o'i gymharu gyda'r strategaeth wreiddiol oedd ynghlwm â chynllun y Cyngor i ddarganfod £16m, a'r hyn fyddai digwydd pe byddai gofyn i ysgolion ddarganfod arbedion effeithlonrwydd o 1% fel pob gwasanaeth arall.

**Tabl 4 – Gostyngiad yng nghyllidebau ysgolion 2011/12 – 2013/14**

| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 (*) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun gwreiddiol wrth edrych am £16m | (659) | (793) | (293) | (1,745) |
| Cynllun gwreiddiol + arbedion effeithlonrwydd 1% | (952) | (1,086) | (586) | (2,624) |
| Gwarchod ysgolion yn unol â dymuniad y Bwrdd | (1,314) | (21) | (226) | (1,561) |

*(*) 'Roedd y Cynllun £16m yn rhagweld y byddai'r angen i ddarganfod arbedion effeithlonrwydd o 0.5% yn parhau heibio 2012/13*

3.11 Fe welir o'r uchod ein bod yn rhagweld mai £1.56m fydd y swm y bydd modd i ni ddisgwyl i'r gyllideb ysgolion gyfrannu tuag at gostau chwyddiant a phwysau ar gyllidebau dros y tair blynedd i ddod sy'n llai na'r hyn oedd dan sylw pan sefydlwyd y strategaeth £16m (cyfran ysgolion - £1.74m) ac yn sicr lawer llai na'r hyn fyddai dan sylw pe byddai disgwyl i ysgolion gyfrannu arbedion effeithlonrwydd o 1% y flwyddyn tuag at y bwlch ariannol fel pob gwasanaeth arall o fewn y Cyngor (£2.6m).

3.12 Ar ôl cynyddu'r targed effeithlonrwydd ar gyfer gweddill gwasanaethau'r Cyngor i 1%, rhaid bod yn fyw i'r ffaith ein bod yn rhagweld y bydd angen darganfod arbedion corfforaethol, cynyddu incwm a gweithredu toriadau o £10.5m pellach ac yn amodol ar beth fydd y sefyllfa yn y bedwaredd flwyddyn, mae yna bosibilrwydd cryf y bydd yn rhaid i'r rhan helaeth o hwn hefyd gael ei ddarganfod yn y gwasanaethau eraill gan na fydd modd galw ar y gyllideb ysgolion am gyfraniad pellach.

3.13 Tra ymddengys ein bod wedi medru darganfod yr arbedion yr ydym eu hangen am 2011/12 a 2012/13, yn sicr mae'r gwaith rhagweithiol a wnaed gan y cyngor wedi talu ar ei ganfed, ond rhaid gwylio rhag tynnu'r ysgwydd oddi ar y maen gan fod angen sicrhau nawr fod y cynlluniau fydd yn cael eu mabwysiadu yn cael eu gweithredu i wireddu'r targedau a nodir uchod.

## 4 CYFALAF

4.1 Nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd yn Rhagfyr y byddai angen i'r Cyngor adolygu ei Strategaeth Rheoli Asedau yng ngoleuni'r gostyngiad sylweddol yn yr arian sydd ar gael i ariannu cyfalaf a'r angen i gydnabod yr ymrwymiad sy'n disgyn ar y Cyngor o fod yn gwella ac adeiladu ysgolion.

4.2 Cam cyntaf yn y broses yma yw i'r Gweithgor a sefydlwyd gan y Prif Bwyllgor Craffu gwrdd i ystyried y dewisiadau a gwneud argymhellion ynglŷn â lleihau'r galwadau sydd yn y strategaeth neu gynyddu'r adnoddau sydd ar gael. Bydd y gweithgor yn cwrdd yn yr ychydig wythnosau nesaf.

4.3 Yn y cyfamser, mae'r Cyngor eisoes wedi sefydlu rhaglen gyfalaf ar gyfer 2011/12 gwerth £18.642m y llynedd ac felly gydag un neu ddau o newidiadau bychan 'rwyf yn argymell ein bod yn parhau i wireddu'r rhaglen honno gan aros hyd nes y bydd y pwyllgor craffu wedi cael cyfle i edrych ar y strategaeth asedau yn ei chyfanrwydd cyn ymrwymo mwy yn y blynyddoedd i ddod.

4.4 'Roedd y Strategaeth Asedau yn clustnodi £500,000 ymhob blwyddyn i ariannu materion nad oeddent yn hysbys ar adeg paratoi'r strategaeth neu ar gyfer materion oedd y tu allan i faes llafur y strategaeth.

4.5 Fe welir o adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella fod yna ddymuniad i awdurdodi gwariant cyfalaf cyfwerth â £956,200 yn 2011/12 (gydag un cynllun yn ymestyn dros y 4 blynedd ganlynol).

4.6 Gan gymryd fod yr aelodau yn dymuno cytuno i hyn argymhellir fod y gweddill uwchben y £500,000 yn cael ei ariannu o'r adnoddau a roddwyd o'r neilltu ar gyfer ariannu benthyciad darbodus ond na fydd eu hangen yn 2011/12.

4.7 Un mater arall sydd angen sylw yw'r angen i ail broffilio gwariant cyfalaf ar y strategaeth wastraff.

4.8 Yn y proffil gwreiddiol nodwyd fod angen gwario £2.98m yn 2010/11 a £0.19m yn 2011/12 ac mae'r rhain yn ymddangos yn y rhaglenni cyfalaf am y ddwy flynedd, gyda thua £4.5m arall i'w wario yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, oherwydd bod angen capio a datblygu celloedd yn Ffridd Rasus a Llwyn Isaf yn gynt na'r disgwyl, bydd angen dod â gwariant cyfalaf ymlaen gan ychwanegu £1.4m i raglen 2012/13.

4.9 Ni fydd hyn yn effeithio ar y strategaeth asedau gan mai'r cyfan sydd dan sylw yma yw newid amseriad gwariant sydd eisoes yn y strategaeth.

4.10 Argymhellir felly ein bod yn cynyddu'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2011/12 drwy ymgorffori'r ddau newid uchod gan gynyddu'r rhaglen o'r £18.642m gwreiddiol i £20.498m i'w ariannu bellach fel a ganlyn -

**Tabl 5**
**Ariannu rhaglen gyfalaf 2011/12**

| **£'000** | **2011/12** |
|---|---|
| **Gofynion cyfalaf** | **20,498** |
| **I'w ariannu drwy** | |
| Darpariaeth cyfalaf yn y setliad | 7,890 |
| Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn | 424 |
| Derbyniadau cyfalaf | 2,117 |
| Cyfraniad o refeniw | 2,349 |
| Benthyca darbodus | 7,718 |
| **Cyfanswm ariannu** | **20,498** |

## 5 BALANSAU

5.1 Fel y nodwyd yn adroddiad Rhagfyr, rhagwelir y bydd gennym falansau o tua £8m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon ond yn wyneb yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, a'r tebygrwydd y bydd yn rhaid ariannu costau diswyddo allasai fod yn sylweddol, nid oeddwn yn argymell ein bod yn defnyddio'r balansau yma ar hyn o bryd.

5.2 Nid oes yna unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma. Yn wir yn wyneb yr hyn a nodir yng nghymal 2.8 uchod am fygythiadau na ddarparwyd ar eu cyfer mae'r rhesymeg yma yn gryfach fyth.

## 6 Y DRETH GYNGOR

6.1 Bydd angen i'r Pwyllgor ystyried a yw'n fodlon gyda chyfansoddiad y gyllideb a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol a chan gymryd ei fod yn fodlon gyda thrywydd cyffredinol y strategaeth, byddai hyn yn arwain at gyllideb fesul gwasanaeth yn 2011/12 fel yr hyn a nodir yn atodiad 2.

6.2 Mae'r gyllideb a nodir yn arwain at gynnydd yng nghyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol o 3.8%; lleihad bychan yn y gyllideb ysgolion o 0.8% a gweddill y gwasanaethau yn wynebu **gostyngiad** cyfartalog o 3.3%.

6.3 Y penderfyniad sydd angen ei wneud wedyn yw sefydlu union lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2011/12.

6.4 Yn y tybiaethau a wnaed uchod, fe gymerwyd ffigwr o 4% yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr.

6.5 Byddai 4% yn gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Gyngor o £38.43 i eiddo mewn Band D neu 74c yr wythnos. [Byddai'r dreth a godir gan y

cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs].

6.6 Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, nodir yn y tabl isod faint o dai sy'n talu'r Dreth Gyngor ym mhob band a faint sydd yn derbyn cymorth budd-dal i dalu'r biliau hynny –

**Tabl 6**
**Nifer eiddo lle telir Treth Gyngor ac sy'n derbyn budd-dal**

| | Nifer yn cael bil | Nifer yn derbyn elfen o fudd-dal | Nifer yn derbyn budd-dal llawn |
|---|---|---|---|
| Band A | 8,331 | 773 | 1,987 |
| Band B | 14,702 | 1,517 | 2,853 |
| Band C | 11,493 | 844 | 1,312 |
| Band D | 9,901 | 328 | 585 |
| Band E | 7,795 | 234 | 350 |
| Band F | 3,750 | 67 | 80 |
| Band G | 1,234 | 9 | 11 |
| Band H | 175 | 1 | 2 |
| Band I | 73 | - | 1 |
| **Cyfanswm** | 57,454 | 3,773 | 7,181 |

6.7 Ni wyddom eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru ond gobeithiaf fod mewn sefyllfa i adrodd ar lafar yn y cyfarfod.

6.8 Mae cynnydd o 4% yn cynhyrchu tua £1.9m i ni (gyda phob 1% yn cynhyrchu £476,400). Nid yw gostwng ychydig o dan 4% am wneud gwahaniaeth mawr i'r strategaeth.

6.9 Mae'r hafaliad yn un syml wrth g wrs – am bob 0.25% yn **is** na 4% y byddwn yn gosod y Dreth Gyngor yna, os bydd yr holl dybiaethau a wnaed ar gyfer y blynyddoedd canlynol yn gywir, yna dros gyfnod 4 blynedd y strategaeth byddwn yn **ychwanegu** ychydig dros £100,000 at y toriadau o £5.5m y byddwn angen eu darganfod. Er nad yw'n swnio'n llawer – bydd yn golygu gwerth £100,000 yn llai o wasanaeth wrth gwrs ac fe fydd rhywun yn rhywle yn colli rhywbeth.

6.10 Byddai dod i lawr i Dreth Gyngor o 3% felly yn golygu ychwanegu £476,400 at y cyfanswm toriadau y byddwn eu hangen.

6.11 O fod yn mynd yn uwch na 4% bydd y gwrthwyneb yn wir wrth gwrs - sef am bob 0.25% yn **uwch** na 4% y byddem yn gosod y Dreth Gyngor byddem yn **lleihau'r** toriadau y bydd eu hangen £100,000.

6.12 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu yn un anodd wrth gwrs a mater i'r Pwyllgor yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol.

## 7. PENDERFYNIADAU I'W HYSTYRIED GAN Y BWRDD

7.1 Mae angen i'r Bwrdd benderfynu ar y materion canlynol -

a. O ystyried y gyllideb a nodir yn rhan 2 yr adroddiad a'r sylwadau ychwanegol a wnaed o ran risgiau ariannol sydd wedi eu cyfarch , a yw'r Bwrdd yn fodlon gyda'r hyn y bwriedir ei wneud o ran gwariant a sut y bwriedir sicrhau fod gennym gyllideb gytbwys yn 2011/12 ?

b A yw'r Bwrdd yn parhau i fod yn gyfforddus gyda'r strategaeth ar gyfer darganfod yr arbedion dros y cyfnod 4 blynedd a amlinellir yn rhan 3 o gofio'r newidiadau sydd nawr wedi eu hymgorffori o ran lleihau cyfraniad ysgolion ac a yw'n cytuno i'r proffil diwygiedig ar gyfer yr arbedion i'w darganfod o'r meysydd unigol ?

c. A yw'r Bwrdd yn cytuno gyda'r hyn a argymhellir ar gyfer rhaglen gyfalaf 2011/12 yn rhan 4?

ch Beth yw barn y Bwrdd ynglŷn â'r lefel Dreth Gyngor y dylid ei godi yn 2011/12.

**ATODIAD 1**

## Ffigyrau y tu ôl i'r tafluniad diffyg o £37.5m dros 4 blynedd

| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|
| Tal gweithlu heblaw athrawon | - | 3.4 | 3.5 | 3.6 |
| Tal athrawon | 0.5 | - | 1.0 | 1.7 |
| Prisiau | 2.3 | 1.9 | 1.9 | 1.6 |
| Treth Tirlenwi | 0.3 | 0.2 | 0.3 | - |
| Pensiynau | 0.3 | 0.4 | 0.4 | - |
| Incrementau cyflog | 0.3 | 0.4 | 0.4 | 0.4 |
| Praeseptau | - | - | 0.1 | 0.3 |
| Costau benthyciadau cyfalaf | (0.4) | 0.2 | - | - |
| Llog ar falansau | 0.1 | (0.5) | (0.3) | - |
| Demograffi | - | 0.5 | 0.5 | 0.4 |
| Amrywiol eraill | (0.2) | - | - | - |
| Pwysau ar wasanaethau | 3.0 | 3.4 | 2.8 | 3.0 |
| Cyfalaf ychwanegol (ysgolion a.y.b.) | - | 0.5 | 0.2 | 0.1 |
| Trosglwyddiadau | 0.5 | - | - | - |
| Colli (cynnydd) yng Ngrant y Cynulliad | 1.9 | - | (1.7) | (1.7) |
| Cyfanswm diffyg | 8.6 | 10.4 | 9.1 | 9.4 |

**Cyfanswm diffyg dros 4 blynedd = £37.5m**

ATODIAD 2

## Cyllideb arfaethedig 2011/12 fesul gwasanaeth

| ADRANNAU | Cyllideb Sylfaenol 2010/11 £'000 | Trosglwyddiadau i'r Setliad £'000 | Chwyddiant £'000 | Increments, Cyflogau a Pensiynau £'000 | Praeseptau Llog ar Falansau a Costau Benthyca £'000 | Addasiadau Cyllidebau Incwm £'000 | Amrywiol £'000 | Addasiadau Eraill £'000 | Bidiau £'000 | Arbedion Eraill £'000 | Cyllideb Sylfaenol 2011/12 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tim Arweinyddiaeth | 1,033 | 0 | (2) | 2 | 0 | 0 | 4 | (264) | 0 | (9) | 764 |
| Strategol a Gwella | 2,267 | 250 | (6) | 19 | 0 | 0 | 5 | 197 | 164 | (109) | 2,787 |
| Cyllid | 3,930 | 0 | (23) | 11 | 0 | 0 | 1 | (19) | 0 | (270) | 3,630 |
| Democratiaeth a Chyfriethiol | 3,344 | 0 | (26) | 12 | 0 | 14 | 10 | (43) | 7 | (82) | 3,236 |
| Gofal Cwsmer | 6,491 | 0 | 43 | 43 | 0 | 0 | 0 | 264 | 35 | (409) | 6,467 |
| Adnoddau Dynol | 3,277 | 0 | (13) | 11 | 0 | 0 | 0 | (246) | 41 | (92) | 2,978 |
| Cefnffyrdd | (90) | 0 | 27 | (2) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (24) | (89) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 22,507 | 0 | 591 | 60 | 0 | (10) | (57) | (82) | 448 | (770) | 22,687 |
| Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a GyC) | 7,253 | 0 | 112 | 42 | 0 | 0 | 4 | (172) | 0 | (386) | 6,853 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 555 | 0 | (63) | 22 | 0 | 0 | (1) | 13 | 0 | (268) | 258 |
| Addysg Canolog | 17,622 | 0 | 330 | 33 | 0 | 0 | 167 | (723) | 50 | (301) | 17,178 |
| Cyllideb Ygolion | 63,740 | 0 | 509 | 266 | 0 | 0 | (368) | 496 | 0 | (1,422) | 63,221 |
| Economi a Chymuned | 3,571 | 0 | (11) | 9 | 0 | 0 | 21 | 25 | 500 | (294) | 3,821 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 51,182 | 313 | 577 | 2 | 0 | 0 | (1) | (293) | 1,713 | (372) | 53,121 |
| Tai | 1,542 | 0 | 3 | (12) | 0 | 0 | (14) | (2) | 122 | (1) | 1,638 |
| Darparu a Hamdden | 2,398 | 0 | (95) | 77 | 0 | 0 | (86) | 91 | 0 | (390) | 1,995 |
| **Cyfanswm Adrannau** | 190,622 | 563 | 1,953 | 595 | 0 | 4 | (315) | (758) | 3,080 | (5,199) | 190,545 |
| Materion corfforaethol a chyfalaf | 27,138 | 0 | 1,186 | 0 | (320) | 0 | (73) | 542 | (71) | (1,055) | 27,347 |
| **CYFANSWM GROS =** | **217,760** | **563** | **3,139** | **595** | **(320)** | **4** | **(388)** | **(216)** | **3,009** | **(6,254)** | **217,892** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Balansau a Reserfau Penodol** | (558) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 216 | 0 | 0 | (342) |
| **CYFANSWM NET =** | **217,202** | **563** | **3,139** | **595** | **(320)** | **4** | **(388)** | **0** | **3,009** | **(6,254)** | **217,550** |

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

**A. Barn yr Aelodau Lleol:**

Dim yn fater lleol

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

**B. Barn y Swyddogion Statudol:**

**1. Prif Weithredwr:**

Mae'r gwaith o bennu Strategaeth Ariannol bob amser yn anodd oherwydd yr angen i daro'r cydbwysedd iawn o fewn y Strategaeth ond, yn amlwg, mae'r strategaeth hon yn fwy heriol nag arfer oherwydd yr hinsawdd ariannol. Rwy'n fodlon bod y strategaeth yn ceisio taro'r cydbwysedd iawn ac yn ei chymell i'r Bwrdd.

**2. Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**3. Prif Swyddog Cyllid:**

Rwyf wedi bod yn rhan o drafodaethau perthnasol wrth i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol lunio'r strategaeth ariannol am 2011/12 - 2014/15, ac mae ein cyfrifwyr wedi ymlynu at drefniadau costio proffesiynol wrth osod cyllidebau adrannau'r Cyngor yn ddarbodus. Yn gyffredinol, rwy'n argyhoeddedig fod y gyllideb a argymhellir yma'n bwyllog a theg, ac ar sail amcangyfrifon priodol o anghenion gwario 2011/12 a thu hwnt.

Rhaid i'r tybiaethau sy'n sail i'r gyllideb fod yn gadarn, ac rwy'n argyhoeddedig fod hynny yn wir, ond mae risgiau anochel ynghylch cynlluniau i arbed - os yw lefel yr arbedion ariannol yn gyraeddadwy, os oes modd cyflawni'r deilliannau, ac os yw'r bwriad manwl yn dderbyniol i'r aelodau ymhen hir a hwyr. Hyd yma, mae gan y Cyngor hwn record dda o gyflawni arbedion, ond bydd angen cryn ddyfalbarhad a phenderfyniadau anodd dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'n anochel fod risg cymedrol yn ymglymedig â datblygu'r strategaeth ariannol ar gyfer 2011/12 - 2014/15 gan fod peth ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chwyddiant tebygol ar rai penawdau gan gynnwys cytundebau tâl, ynni, tanwydd, ayb. Hefyd, mae nifer o adrannau'r Cyngor yn parhau'n ansicr parthed dyfodol (maint a bodolaeth) rhai grantiau penodol. Gwneir cyfiawnder yn y strategaeth (gweler rhan 2.7) o ran rhai grantiau sy'n trosglwyddo i'r setliad. Er hynny, mae elfennau eraill o wariant y Cyngor wedi'i ariannu gan grantiau penodol allasai leihau neu hyd yn oed ddiflannu cyn Ebrill 2011.

Ymhellach, fel eglurais i'r Bwrdd 14/12/2010 mae cynyddu'r gyfradd casglu treth tybiannol o 98% i 99% wedi cynorthwyo'r Cyngor i gau'r bwlch ariannol, ond gyda mwy o risg yn ymglymedig wrth gyllidebu. Wrth fabwysiadu'r polisi cyllidebu mwy anturus yma ar gyfer 2011/12, dim ond y gyllideb wrth gefn (rhan 2.8 o'r adroddiad) fyddai ar gael i gynorthwyo pe bai unrhyw orwariant. Yn amlwg, bydd y gyllideb wrth gefn o dan gryn bwysau yn y dyddiau ansicr hyn.

Felly, gyda'r holl risgiau'n wynebu'r Cyngor, rwy'n cytuno gyda chynnwys rhan 5.1 o adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, ac o'r farn dylid cadw'r £8m o falansau cyffredinol wrth gefn y Cyngor i gyfarfod costau diswyddo tebygol ac i gynorthwyo drwy unrhyw drafferthion anrhagweledig. Mae rhan 2.8 o'r adroddiad yn nodi un cost annisgwyl sydd wedi'i amlygu yn ddiweddar - risg ariannol yn llechu ym maes ffioedd gofal, sydd wedi codi yn bur oherwydd digwyddiadau tu allan i'r Cyngor hwn. Adroddir ymhellach ar lafar ynglŷn ag ymhlygiad hyn yng nghyfarfod y Bwrdd.

Rwy'n argymell i'r aelodau gefnogi'r strategaeth ariannol gerbron, fel y gallwn barhau i gadw cyllid Cyngor Gwynedd dan reolaeth yn 2011/12. Wedi'r camau a gymerwyd eisoes gan y Cyngor (adnabod arbedion er mwyn ymateb i'r amgylchiadau heriol sydd o'n blaenau dros y pedair blynedd nesaf), rwy'n credu fod y strategaeth ariannol yma'n briodol a darbodus. Fodd bynnag, gyda rhywfaint o risg yn anochel, bydd integriti'r strategaeth ariannol yn ddibynnol ar yr Arweinyddion Portffolio a'r penaethiaid adrannau i gyflawni'r arbedion a gynlluniwyd a pharhau i reoli gwariant yn ddisgybledig er mwyn byw o fewn cyfyngiadau eu cyllidebau yn 2011/12.